# Hysbyseb Hynod

## Ffaith Anhygoel

Yn Sweden a Norwy, mae hysbysebu i blant o dan 12 oed yn anghyfreithlon.

Pan fydd cwmni eisiau gwerthu eu nwyddau, maent yn hysbysebu i'r bobl allai fod eisiau prynu'r nwyddau hyn.

## Her

Meddyliwch am eich hoff degan, eitem neu gêm gyfrifiadurol. Meddyliwch pam eich bod yn ei hoffi, beth sy'n gwneud i chi ddal ati i'w ddefnyddio ac a fyddech chi'n annog eich ffrindiau i'w brynu.

Cynlluniwch hysbyseb i annog eraill i brynu eich hoff eitem. Eglurwch beth sy'n wych am yr eitem a pham y byddai plant eisiau cael un. Gwnewch eich hysbyseb yn amlwg a lliwgar.




**Hefyd, gallech geisio darganfod:**

- pa nwyddau oedd y cyntaf i gael eu hysbysebu ar y teledu;
- beth yw cost hysbysebu ar y teledu;
- beth oedd yr hysbyseb teledu fwyaf costus.

# Hysbyseb Hynod


Quality Standard Approved